| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Iaith |
| **DYDDIAD** | 25 Ionawr 2022 |
| **TEITL** | Cynllun Hybu'r Gymraeg – Cefnogaeth Gorfforaethol |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Hysbysu'r Aelodau o ymdrechion yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg |
| **AWDUR** | Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol |
| **GWEITHREDIAD** | Derbyn yr adroddiad a chynnig sylwadau |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hon yn cael ei chyflwyno er mwyn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Iaith am gyfraniad yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn a thu hwnt i'r Cyngor.

1.2 Mae gweithrediad Polisi Iaith y Cyngor yn ffurfio rhan greiddiol o waith dydd i ddydd gwasanaethau'r Adran gyda'r Gymraeg yn unig iaith gyfathrebu holl weithgaredd mewnol yr Adran ac hefyd mewn cyfran helaeth o'n gwaith gydag adrannau eraill, y cyhoedd yn ogystal a sefydliadau ac asiantaethau allanol.

1.3 Mae'r Adran yn arwain ar y blaenoriaeth corfforaethol o fewn Cynllun y Cyngor sy'n ymwneud a "Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn y Cyngor" gyda'r Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith o fewn y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn gyrru ein hymdrechion yn y cyswllt hwnnw. Byddwch yn ymwybodol, fel aelodau'r Pwyllgor Iaith, o gynnydd y gwaith hwnnw a'r effaith gadarnhaol y mae'n ei gael ar y defnydd o'r Gymraeg o fewn yr Adrannau.

1.4 O fewn yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, gellir cadarnhau bod gofynion ieithyddol pob swydd wedi'i hadolygu fel rhan o'r Cynllun hwn a bod 92% o staff wedi cwblhau hunan-asesiad o'u gallu i gyrraedd y gofynion hynny (byddai hyn yn ganran uwch oni bai am drosiant staff uwch na'r arfer o fewn dau Wasanaeth yn ystod yr Hydref). O'r staff sydd wedi cwblhau hunan-asesiad, mae 99% ohonynt yn cyrraedd, neu'n mynd tu hwnt i'r gofyn ieithyddol ar gyfer cyflawni dyletswyddau eu swydd.

1.5 Mae ymwneud y Cynllun ei hun efo'r Adran wedi dod i ben erbyn hyn gan bod derbyniad i'r Adran ddynodi'r gofynion gwrando a siarad, darllen a deall ac ysgrifenedig ar gyfer pob swydd a bod asesiad o anghenion unrhyw aelod o staff yn erbyn y gofynion hynny yn ffurfio rhan barhaus o werthusiad a pherfformiad personol. Er hynny, mae nifer o staff yr Adran yn parhau i fod yn awyddus i finiogi eu sgiliau ysgrifenedig yn y Gymraeg ac yn manteisio ar y cyfleon i loywi iaith a ddarperir gan y Cyngor.

1.6 Mae'r Uned Iaith (sy'n cynnwys Hunaniaith) wedi'i lleoli o fewn y Gwasanaeth Democratiaeth a Iaith yn yr Adran ac mae'r swyddogion o fewn yr Uned yn flaenllaw yn gyrru amcanion Cynllun Hybu'r Gymraeg. Mae'r Adran Cefnogaeth

Gorfforaethol yn arwain ar naw o'r blaenoriaethau corfforaethol yn y Cynllun Cyngor presennol ac mae tri o'r blaenoriaethau hynny yn ymwneud yn benodol ag amcanion o fewn Cynllun Hybu'r Gymraeg h.y.

- Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor
- Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus
- Enwau Llefydd Cynhenid Gymreig

## 2. YMATEB I GWESTIYNAU'R PWYLLGOR

| Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod: | Cwestiwn |
|---|---|
| Hybu a hyrwyddo<br><br>Sut ydym ni'n mynd y tu hwnt i ddarparu yn ddwyieithog i fod yn cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, i gyfrannu at y targed cenedlaethol o greu Miliwn o siaradwyr, ac at y nod Llesiant o sicrhau bod pobl Gwynedd yn "Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg"? | ***1. Allwch chi amlygu unrhyw brosiectau o fewn eich adran sydd yn cyfrannu tuag at un o flaenoriaethau strategaeth iaith y Cyngor, sef Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd?***<br><br>**i)** Mae'n waith parhaus i **Hybu'r Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor,** ac rydym yn ymwybodol bod angen parhau i gynnal sgiliau iaith ein staff.<br>Mae'r gwaith o gasglu hunanasesiadau gallu ieithyddol gan staff, i raddau helaeth, yn hunangynhaliol erbyn hyn. Mae hyn oherwydd ein bod wedi rhoi systemau a threfniadau ar waith, er enghraifft:<br>• yr holiadur ar gael i'w gwblhau trwy'r system Hunanwasanaeth<br>• neges yn cael ei hanfon at staff sy'n cael eu penodi trwy'r drefn ganolog<br>• yr holiadur yn rhan o broses anwytho staff gofal.<br>Tra bod y prif sylw hyd yma wedi'i roi i gasglu'r hunanasesiadau, y teimlad bellach yw y dylid rhoi mwy o sylw i'r cam dilynol, sef ymateb i anghenion ac ehangu'r ddarpariaeth. Yn ystod 2022/23 bydd hyn yn cynnwys:<br>• ymateb i anghenion y staff nad ydynt yn cyrraedd holl ddynodiadau iaith eu swyddi yn llawn<br>• ymateb i anghenion yr aelodau eraill o staff sydd wedi nodi yr hoffent hyfforddiant iaith<br>• marchnata'r cyfleoedd sydd ar gael yn fwy cyson<br>• ehangu'r ddarpariaeth fewnol o hyfforddiant iaith.<br>Bydd y gwaith o gasglu hunanasesiadau hefyd yn parhau ond yn canolbwyntio ar :<br>• barhau â'r ymgyrch bresennol gyda staff yr adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol<br>• barhau i weithio gyda chartrefi gofal<br>• ddatblygu'r gwaith o gydweithio gyda staff gofal cymunedol.<br><br>***ii)*** Mae'r **Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus** yn brosiect sy'n ceisio cyfarch yr anghysondeb yn narpariaeth gwasanaethau dwyieithog gan gyrff cyhoeddus yng Ngwynedd, sy'n golygu nad yw hi bob amser yn |

| | |
|---|---|
| | bosibl i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth gyfathrebu efo cyrff cyhoeddus.<br>Mae sefydliadau cyhoeddus yng Ngwynedd a Môn yn amau bod llai yn dewis defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg na sydd o siaradwyr Cymraeg yn y ddwy sir. Drwy gydweithio efo partneriaid sy'n rhan o Is-grŵp y Gymraeg y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, 'rydym wedi comisiynu astudiaeth o dderbynfeydd traddodiadol. Yn ystod 2022/23 byddwn yn:<br>• ystyried sut y gallwn annog mwy o bobl i ymwneud â ni yn y Gymraeg, ac i fod yn gyfforddus wrth wneud hynny ar sail casgliadau'r astudiaeth yn y lle cyntaf<br>• gweithredu cynlluniau ar sail yr ystyriaethau hynny.<br><br>**iii)** Fel y gwyddoch, mae'r gwaith yn ymwneud ag **Enwau Llefydd Cynhenid Gymreig** wedi'i sefydlu fel blaenoriaeth gwella o'r newydd yn yr adolygiad diweddaraf o Gynllun y Cyngor ac hynny er mwyn;<br>• cysoni'r modd y mae'r Cyngor yn gweithredu wrth arddel enwau Cymraeg<br>• sicrhau mai fersiynau Cymraeg enwau lleoedd sydd yn cael y flaenoriaeth gyda phartneriaid allanol<br>• ceisio cymryd camau rhagweithiol i ddiogelu ac atal mwy o newidiadau i enwau cynhenid<br><br>Penodwyd swyddog prosiect i weithredu ar lunio rhaglen waith a chyflawni ar y cerrig milltir allweddol. Mae'r cerrig milltir yn gyfuniad o faterion o fewn rheolaeth y Cyngor (egwyddorion y gall y Cyngor eu pasio) a materion sydd angen sylw pellach drwy gyd-weithio gydag eraill. Mae'r swyddog newydd wedi cychwyn yn ei waith ers dechrau mis Medi.<br><br>Yn y lle cyntaf mae'r sylw wedi bod ar faes enwau tai ac ar sefydlu rhestr o enwau safonol ar gyfer y Cyngor. Mae nifer o gamau pendant eisoes wedi'u cymryd, yn benodol wrth gyd-weithio gyda'r Gwasanaethau Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu. Mae'r system gyfrifiadurol wedi'i haddasu sydd am arwain at ofyn safonol awtomatig ar gyfer enw Cymraeg ar eiddo newydd, newid ein ffordd o gasglu data am geisiadau i newid enwau tai yn ogystal a gwella rhannu gwybodaeth rhwng y ddau Wasanaeth.<br><br>Yn sgîl trafodaethau gyda swyddogion y Cyngor, mae bwlch wedi ei adnabod rhwng y ddelwedd gyhoeddus o newid enwau tai o'r Gymraeg i'r Saesneg, a'r data sydd yn cael ei gasglu gan y Cyngor ar gyfer newid enwau tai. Mae gwaith ar droed i fapio newidiadau ar lefel leol er mwyn mesur gwir faint y broblem. I gyd-fynd â'r cyfan mae cymalau newydd wedi eu drafftio ar gyfer y Polisi Iaith, sy'n dangos ymrwymiad y Cyngor i ddefnyddio ac arddel enwau Cymraeg. |

| | |
|---|---|
| | **iv)** Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er bod yna gydnabyddiaeth o sefyllfa ieithyddol arbennig Gwynedd a chefndir sefydlu **Hunaniaith** fel uned strategol o fewn Cyngor Gwynedd, mae'r brif ffynhonnell incwm – Cynllun Grant i Hybu a Hwyluso Defnydd y Gymraeg 2019-21, Llywodraeth Cymru – wedi canolbwyntio'n bennaf ar ariannu gweithgaredd sy'n hyrwyddo a chefnogi'r defnydd cymdeithasol o Gymraeg yn unol â Thema 2 y strategaeth iaith genedlaethol, Cymraeg 2050, 'Cynyddu'r Defnydd o Gymraeg'. Mae pwyslais y cynllun grant hwnnw ar weithredu ar lawr gwlad i hyrwyddo a hwyluso cynnydd yn y defnydd cymdeithasol a wneir o'r Gymraeg.<br><br>Atgyfnerthir y ffocws cymunedol hwnnw gan raglen waith cyfredol Hunaniaith a'r blaenoriaethau gweithredol a nodir dan amodau'r grant presennol, sef:<br>• dylanwadu ar iaith y teulu<br>• cryfhau'r cyswllt rhwng ysgolion a'r gymuned<br>• cynnig gweithgareddau i ystod eang o drigolion, gan gynnwys grŵp oedran 16-24 oed<br>• datblygu dealltwriaeth o arferion ieithyddol trigolion Gwynedd<br><br>Fodd bynnag, gyda cydweithrediad Cadeirydd Grwp Strategol Hunaniaith ac ar gais y Cabinet, mae swyddogion yr Adran wedi bod yn ystyried sut y gellir cryfhau rôl Hunaniaith yn y gymuned a'i allu i ddenu arian grant ychwanegol i'r dyfodol. Mae hyn wedi arwain at benderfyniad gan Cabinet y Cyngor, yn ei gyfarfod ar y 30 o Dachwedd, 2021, i fuddsoddi £203,880 er mwyn cyflogi pen swyddog i arwain datblygiad pellach Hunaniaith am gyfnod o 4 blynedd gyda'r gofyn penodol iddo/iddi ganolbwyntio ar ddenu grantiau newydd a chodi incwm, gwella'r cyswllt cymunedol, denu mwy o aelodau cymunedol i'r Grŵp Strategol a gweithio tuag at fod yn endid annibynnol. |
| <u>Allanoli gwaith a gosod cytundebau trydydd parti</u><br><br>Sut ydym ni'n sicrhau bod safon y gwasanaeth dwyieithog yn cael ei gynnal wrth allanoli a gosod cytundebau? | ***2. Os yw'r adran yn gosod gwaith yn allanol ar gytundeb, allwch chi gyfeirio at unrhyw arfer da, naill ai wrth osod amodau neu wrth fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth efo amodau ieithyddol?***<br><br>• Prin yw'r cytundebau y mae'r Adran yn eu gosod yng nghyswllt gwasanaethau y mae'n gyfrifol amdanynt ond mae'r arweiniad arbenigol ar faterion caffael yn cael ei gynnig yn gorfforaethol gan ein Gwasanaeth Caffael sy'n cynghori yr Unedau Rheolaeth Categori a leolir o fewn yr adrannau Amgylchedd, Oedolion Iechyd a Llesiant a Priffyrdd a Bwrdeistrefol. Yr Unedau hynny sy'n uniongyrchol gyfrifol am wahodd, gosod a monitro cytundebau gyda'r gwasanaethau perthnasol ar draws y Cyngor.<br><br>• Bydd y Pwyllgor eisoes wedi derbyn manylion ynglyn a sut y mae'r Gymraeg yn cael ei phriod le o fewn cytundebau a osodir |

| | |
|---|---|
| | gan y Cyngor, o'r adroddiadau a gyflwynwyd gan yr adrannau ple lleolir yr unedau rheolaeth categori, ond byddwn yn dymuno tynnu sylw at gynllun peilot yr ydym yn bresennol ymgymryd ag o yng nghyswllt cyflwyno **"gwerth cymdeithasol"** fel maen prawf ychwanegol pan yn ystyried gosod contractau i'r dyfodol.<br><br>• Rydym yn treialu'r fethodoleg newydd yma i asesu tendrau ar sail gwerth cymdeithasol, ochr yn ochr a'r meini prawf hanesyddol o bris ac ansawdd ac hynny efo tri cytundeb sydd angen eu hadnewyddu yn bresennol. Mae'r broses gaffael ar gyfer gosod cytundeb Taliadau Uniongyrchol Gwasanaeth Oedolion eisoes wedi'i chwblhau ac mae'r buddion ychwanegol a ddeilliodd o ddefnyddio'r fethodoleg newydd wedi cynnwys ymrwymiadau gan y cwmni buddugol i ddarparu swyddi i bobl leol, profiadau gwaith, hyfforddiant, cefnogi elusennau lleol a datblygu sgiliau Cymraeg ei gweithlu.<br><br>• Mae treialu'r fethodoleg newydd yn parhau, gyda'r ail dendr peilot wedi'i gwblhau ym maes cynnal a chadw adeiladau. Nid yw ymateb y farchnad wedi bod cystal â'r peilot gyntaf ac mae hyn wedi amlygu'r angen i wneud gwaith pellach i annog a chefnogi'r farchnad. Fel rhan olaf o'r gwaith treialu'r fethodoleg byddwn yn cynnal un peilot arall yng nghyswllt cytundeb darparu peiriannau ar gyfer gwaith Priffyrdd a Bwrdeistrefol gyda golwg wedyn i ddod i gasgliad terfynol ynglyn a chyflwyno'r fethodoleg newydd i drefniadau caffael sefydlog y Cyngor. |
| <u>Gweithredu'n ddwyieithog</u><br><br>Sut ydym ni'n llwyddo wrth weithredu ar ofynion y Polisi Iaith a Safonau'r Gymraeg? | ***3. Oes yna unrhyw rwystrau i'ch gallu fel adran i gynnig gwasanaeth llawn yn y Gymraeg?***<br><br>• Mae'r Gwasanaeth Cefnogol, sydd yn darparu gwasanaethau gweinyddol i adrannau, ym maes cyflogaeth a cyllid yn bennaf, yn gyfrifol am gydgordio trefniadau **gwirio cofnodion troseddol** y staff hynny sy'n cyflawni gwaith ym meysydd plant ac oedolion. Mae'r system newydd ar-lein gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gyfer cyflawni'r gwaith hwn yn uniaith Saesneg yn bresennol ond yn ddiweddar, yn dilyn pwysau a roddwyd gan y Cyngor hwn a'r Comisiynydd Iaith, mae gwaith ar y gweill i sicrhau y bydd y ddarpariaeth ar gael yn y Gymraeg o fewn y misoedd nesaf. Mae'r Cyngor hefyd wedi gofyn i'r cwmni sicrhau bod modd i'r system, ar ei newydd wedd, adnabod dewis iaith defnyddwyr i'r dyfodol.<br><br>• Mae yna ddiffyg darpariaeth hyfforddiant dwyieithog o ansawdd ar gyfer ein **Prentisiaethau**, yn enwedig felly ar gyfer prentisiaethau uwch. Byddwch yn ymwybodol bod y Cynllun |

| | |
|---|---|
| | lleol o fewn y Cyngor yn un hynod lwyddiannus, yn darparu cyfleon o brofiad gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg. Fel rhan o'r Cynllun, mae'r swyddogion o fewn y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad wedi dwyn perswad ac annog darparwyr hyfforddi i gynnig y rhan fwyaf o'u darpariaeth perthnasol trwy gyfrwng y Gymraeg. I'r perwyl yma, rydym wedi cyflwyno'r "Datganiad o Uchelgais yr Iaith Gymraeg" ar gyfer prentisiaethau Cyngor Gwynedd sy'n amlinellu'r disgwyliadau ieithyddol sydd ar y prentis, y Cyngor a'r darparwr hyfforddiant. Mae pob darparwr hyfforddi a ddefnyddir a'r 30 prentis hyd yma wedi arwyddo'r datganiad yn ymrwymo i'r disgwyliadau hynny.<br><br>• Mae'r Ymgynghorydd Iaith wedi bod yn cydweithio gyda'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn ystod y flwyddyn diwethaf ar gyfer datblygu templed o'r newydd ar gyfer **asesu effaith cydraddoldeb** o fewn y Cyngor. Mae'r asesiad yn awr yn cynnwys ystyriaeth o'r gofynion Iaith ac mae'r swyddogion o fewn yr Adran hon wedi llwyddo i sicrhau bod yr elfen iaith wedi ei gynnwys yn y templed asesu effaith ar draws y rhanbarth (sef rhywbeth na fyddai wedi digwydd oni bai am fewnbwn swyddogion Gwynedd).<br><br>• Nid oes modd yn bresennol i unigolion **gofrestru genedigaethau** yn ddwyieithog os yw'r plentyn yn cael ei eni yn Lloegr. Mae'r Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer a Cofrestru yma yng Ngwynedd yn cyd-weithio efo Cyngor Sir Gaerfyrddin a'r Swyddfa Gofrestru Cyffredinol ar gyfer Cymru a Lloegr i unioni hynny gan hefyd bwyso am yr hawl i weinyddu cofrestriad yn y Gymraeg yn unig i'r dyfodol.<br><br>• Mae'r cyfnod clo, ers mis Mawrth, 2020, wedi cyflwyno nifer fawr o heriau. Un o'r rhai hynny, i'r Cyngor yma ac awdurdodau lleol eraill, oedd y gallu i gynnal ein trefniadau democrataidd. Rydym wedi hen ymgyfarwyddo bellach efo cyfarfodydd rhithiol ac, o fewn y Cyngor yma, wedi gallu cymryd yn ganiataol bod y **ddarpariaeth cyfieithu** ar gael fel rhan o'r trefniadau. Defnyddir llwyfan "Zoom" i gyflawni'r gofyn hwnnw yn bresennol er mai dewis lwyfan y Cyngor ar gyfer ei gyfarfodydd mewnol ydi "Microsoft Teams". Nid oes modd darparu'r Gwasanaeth Cyfieithu yn effeithiol ar Teams yn bresennol ond mae addewidion gan Microsoft y bydd hynny yn derbyn sylw, eto yn dilyn pwysau a roddwyd yn ystod 2020 ar y cwmni gan y Cyngor hwn a nifer o sefydliadau eraill. Wedi dweud hynny, mae'n bwysig nodi yma bod Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad yn darparu cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar Zoom ac wedi hyfforddi a tywys staff mewn sefydliadau cyhoeddus eraill i ymgyfarwyddo a darparu'r un gwasanaeth. Yn hyn o beth, byddwn yn dymuno llongyfarch yr Arweinydd Tim |

| | |
|---|---|
| | Cyfieithu ac aelodau yr Uned am eu gwaith yn hyrwyddo a sicrhau nad oedd gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn llithro oherwydd yr amgylchiadau a wynebwyd.<br><br>• Mae swyddogion y Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn darparu **hyfforddiant i reolwyr sy'n arwain at gymhwyster ffurfiol y Sefydliad ar gyfer Iechyd a Diogelwch (IOSH**). Mae hwn yn gymhwyster y disgwylir i bob rheolwr ar draws y Cyngor feddu arno. Er bod y swyddogion wedi cynnal y sesiynau hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg ers cyflwyno'r hyfforddiant yn fewnol yn y Cyngor, roedd yn rhaid i'r deunyddiau swyddogol (a sylweddol) gael eu darparu trwy'r Saesneg. Yn dilyn cyfres o geisiadau i gael yr hawl i gyfieithu'r deunyddiau (a sawl gwrthodiad) mae'r ddogfenaeth yn awr ar gael yn dilyn cytundeb Bwrdd Rheoli IOSH i ganiatau hynny. |
| Datblygu cyfleoedd newydd | ***4. Oes gennych chi syniadau am ffyrdd newydd y gallem ni fod yn hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir – naill ai yn eich gwasanaethau eich hun neu drwy gydweithio gydag eraill?***<br><br>• Un o'r heriau mwyaf un sydd wedi amlygu ei hun dros y ddwy flynedd diwethaf yw yr un sy'n ymwneud a'n gallu i recriwtio a phenodi i swyddi allweddol ar draws y Cyngor. Mae'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol ynghyd a'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn arwain ar y blaenoriaeth gwella corfforaethol sy'n ymwneud a **"Cynllunio'r Gweithlu"** ac er bod llwyddiannau i'w hadrodd yng nghyswllt y gwaith yma yn barod, mae'r her i sicrhau parhad ein gwasanaethau, ac hynny yn newis iaith ein trethdalwyr, yn un real. Mae'r gallu i weithio'n rhithiol (yn aml o'r cartref) efo'r potensial i roi llawer mwy o ddewis cyflogaeth i unigolion lleol a fyddai cyn hyn efallai wedi rhoi y pwyslais ar allu byw yn agos i'w man gwaith. Ar y llaw arall, mae yma gyfle hefyd i ddenu unigolion i weithio i'r Cyngor ple nad oedd hynny yn ystyriaeth cyn y pandemig. Yn hyn o beth, byddwn yn anelu i adeiladu ar y sylfaen cadarn sydd ganddom eisoes trwy'r cynllun prentisiaethau, cynllun rheolwyr ac arbenigwyr yfory yn ogystal a'r rhaglen datblygu potensial mewnol sydd ganddom tra'n cryfhau ein cysylltiadau a'r cydweithio rhyngddom a gwasanaethau cyflogaeth o fewn y Cyngor ac yn ehangach er mwyn sefydlu'r Cyngor yn gadarn fel cyflogwr o ddewis.<br><br>• Darparwyd enghreifftiau yn yr adroddiad i'r hyn y bu i ni ei ddatblygu a dylanwadu arno yng nghyd-destun gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ac hynny trwy gydweithrediad sefydliadau eraill yn aml. Bydd y buddsoddiad diweddar i geisio ymestyn gwaith **Hunaniaith** o fewn ein cymunedau a cheisio |

| | |
|---|---|
| | ennyn mwy o gyfranogiad cymunedol i'r gwaith hwnnw yn allweddol tra bydd ymdrechion yr Is-Grwp o fewn y **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** i gael mwy o siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r sefydliadau cyhoeddus yn hynod bwysig. |